

FOCUS AWARDS

# Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (RQF)

601/8533/8

Silicon House, Farfield Park, Manvers, Rotherham S63 5DB

# Crynodeb o'r Cymhwyster

## Gwybodaeth Allweddol

| Lefel | Sector | Math o Gymhwyster |
|---|---|---|
| 4 | Cymorth Dysgu Uniongyrchol | Cymhwyster Galwedigaethol Arall |
| **Cyfanswm Amser y Cymhwyster** | **Gwerth y Credydau** | **Oriau Dysgu dan Arweiniad** |
| 360 | 36 | 108 |
| **Statws** | **Dulliau Asesu** | **Isafswm Oedran** |
| Ar gael i Ddysgwyr | Portffolio Tystiolaeth | 16 |



# Cynnwys

Gwybodaeth Allweddol ... 2
Unedau ... 7
Gofynion o ran Staff ... 14
Geirfa ddefnyddiol o'r termau a ddefnyddir yn y fanyleb hon ... 15
Adborth yr Asesydd ... 17
Adroddiad y Sicrhawr Ansawdd Mewnol (IQA) ... 18

# Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (RQF)

Rhif Cyfeirnod y Cymhwyster: 601/8533/8
Oriau Dysgu dan Arweiniad: 108
Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 360
Credydau: 36



## Diben y Cymhwyster:

Mae Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (RQF) wedi'i hanelu at y dysgwyr hynny sy'n gweithio fel cynorthwyydd addysgu ar hyn o bryd sy'n dymuno symud ymlaen i statws Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch.

Bydd Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (RQF) yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddysgwyr wrth ddadansoddi a mynd i'r afael â'r gwahanol heriau y mae cynorthwywyr ystafell ddosbarth yn debygol o ddod ar eu traws. Bydd dysgwyr hefyd yn deall gweithio gydag unigolion a chyda grwpiau bach yn ogystal â chael cipolwg hanfodol ar gefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA).

## Ystod Oedran

Ceir mynediad yn ôl disgresiwn y ganolfan. Fodd bynnag, dylai dysgwyr fod yn 16 oed i ymgymryd â' r cymhwyster hwn.

## Cwmpas Daearyddol

Mae'r cymhwyster hwn ar gael yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Gofynion Mynediad i Ddysgwyr

Mae'n ofynnol i ddysgwyr fod yn gweithio mewn ysgol fel cynorthwyydd addysgu. Nid yw Focus Awards yn gosod unrhyw ofynion mynediad eraill, ond efallai y bydd gan ddarparwyr hyfforddiant neu golegau eu canllawiau eu hunain.

## Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig

Cyfeiriwch at 'Polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig' Focus Awards.
https://www.focusawards.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/Reasonable-Adjustments.pdf

## Dulliau Asesu

Asesir y cymhwyster hwn yn fewnol. Rhaid i bob dysgwr greu portffolio tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi cyflawni'r holl ddeilliannau dysgu a'r meini prawf asesu sy'n gysylltiedig â phob uned.

Gallai'r prif ddarnau o dystiolaeth ar gyfer y portffolio gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Arsylwadau'r asesydd
- Tystiolaeth tystion
- Cynnyrch dysgwr
- Taflenni gwaith
- Aseiniadau/prosiectau/adroddiadau
- Cofnod o gwestiynau llafar ac ysgrifenedig
- Adroddiadau dysgwyr a chymheiriaid
- Cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol (RPL)

## Llwybrau Cynnydd

Gall dysgwyr sydd am symud ymlaen o'r cymhwyster hwn wella eu sgiliau ymhellach drwy'r canlynol:

- Dyfarniad Lefel 3 Focus Awards mewn Addysg a Hyfforddiant (RQF)
- Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards mewn Addysg a Hyfforddiant (RQF)
- Diploma Lefel 5 Focus Awards mewn Addysg a Hyfforddiant (RQF)

## Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol

- https://focusawards.org.uk/supportingmaterials
- https://ofqual.gov.uk



# Strwythur y Cymhwyster

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, rhaid i ddysgwr gwblhau pob un o'r saith uned orfodol.

## Unedau Gorfodol

| Teitl yr Uned | Cyfeirnod yr Uned | Lefel | Credydau | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth a Datblygiad Proffesiynol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch | D/508/2483 | 4 | 4 | 12 |
| Datblygiad a Lles Plant | H/508/2484 | 4 | 4 | 12 |
| Cefnogi Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig | K/508/2485 | 4 | 4 | 13 |
| Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol Plant a Phobl Ifanc | A/508/2605 | 4 | 4 | 12 |
| Gweithio gydag unigolion a grwpiau o ddysgwyr | T/508/2487 | 4 | 8 | 13 |
| Perthnasoedd gwaith cadarnhaol | T/508/2490 | 4 | 4 | 13 |
| Cynllunio, monitro, gweithredu ac asesu cwricwlwm | T/508/2490 | 4 | 8 | 12 |

# Unedau

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Uned:** | Gwybodaeth a Datblygiad Proffesiynol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch |
| **Rhif yr Uned:** | D/508/2483 |
| **Lefel:** | 4 |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad:** | 12 |
| **Credydau:** | 4 |

**Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr ynghylch beth yw Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch a'r hyn sy'n ofynnol gan Gynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch.

| **Deilliant Dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | | **Maen Prawf Asesu**<br>**Gall y dysgwr:** | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall beth yw Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch a beth sy'n ofynnol gan Gynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch | 1.1 | Disgrifio diben cynorthwyydd addysgu lefel uwch |
| | | 1.2 | Amlinellu rôl cynorthwyydd addysgu lefel uwch |
| 2 | Deall y gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch | 2.1 | Disgrifio diben datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) |
| | | 2.2 | Dadansoddi sut mae DPP yn effeithio ar ymarfer |
| | | 2.3 | Defnyddio cyngor a sylwadau i wella ei wybodaeth a’i ymarfer ei hun |
| 3 | Deall sut i weithio fel aelod o dîm a nodi cyfleoedd i weithio gyda chydweithwyr, rheoli eu gwaith lle bo hynny'n briodol a rhannu datblygiad arferion effeithiol gyda nhw | 3.1 | Esbonio pwysigrwydd gweithio fel aelod o dîm |
| | | 3.2 | Nodi gwahanol rolau o fewn ei dîm ei hun a'r cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio |
| | | 3.3 | Esbonio ei rôl ei hun wrth reoli a datblygu arferion effeithiol aelodau priodol o'r tîm |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl yr Uned:** | Datblygiad a Lles Plant | | |
| **Rhif yr Uned:** | H/508/2484 | | |
| **Lefel:** | 4 | | |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad:** | 12 | | |
| **Credydau:** | 4 | | |
| **Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr wrth ystyried datblygiad plant, lles a diogelu. | | | |
| **Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn:** | | **Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr:** | |
| 1 | Gwybod y gwahanol gamau yn natblygiad plant | 1.1 | Esbonio camau datblygiad corfforol, cymdeithasol a deallusol o enedigaeth hyd at 19 oed |
| 2 | Gwybod y ffactorau a all ddylanwadu ar/effeithio ar ddatblygiad plant a sut mae'r rhain yn effeithio ar ymarfer | 2.1 | Esbonio sut y gall amrywiaeth o ffactorau allanol ddylanwadu ar/effeithio ar ddatblygiad plant. |
| | | 2.2 | Esbonio sut y gall amrywiaeth o ffactorau personol ddylanwadu ar/effeithio ar ddatblygiad plant. |
| | | 2.3 | Esbonio sut y gall damcaniaethau a fframweithiau i gefnogi datblygiad ddylanwadu ar/effeithio ar arferion cyfredol. |
| | | 2.4 | Esbonio'r mathau o newidiadau neu anawsterau a all effeithio ar ddatblygiad neu les plentyn, a phryd i'w gyfeirio at gydweithwyr i gael cymorth arbenigol. |
| 3 | Deall sut i adnabod a pharchu'r cyfraniad y gall rhieni a gofalwyr ei wneud i ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc | 3.1 | Disgrifio'r cyfraniadau y gall rhieni a gofalwyr eu gwneud i ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc |
| 4 | Deall sut mae fframweithiau sy'n cefnogi datblygiad a lles plant a phobl ifanc yn effeithio ar eu hymarfer | 4.1 | Disgrifio'r fframweithiau sy'n cefnogi datblygiad a lles plant a phobl ifanc sy'n effeithio ar ymarfer. |

| Teitl yr Uned: | Cefnogi Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig |
|---|---|
| Rhif yr Uned: | K/508/2485 |
| Lefel: | 4 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 13 |
| Credydau: | 4 |

**Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall sut i gefnogi dysgwyr i gael mynediad i'r cwricwlwm yn unol â'r cod ymarfer a deddfwriaeth anableddau anghenion addysgol arbennig (AAA) | 1.1 | Nodi hawliau cyfreithiol plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig |
| 2 | Deall sut i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc | 2.1 | Nodi deddfwriaeth berthnasol a chodau ymarfer i hyrwyddo cydraddoldeb a gwerth amrywiaeth |
| | | 2.2 | Disgrifio ffyrdd y gall plant a phobl ifanc brofi rhagfarn a gwahaniaethu |
| | | 2.3 | Dadansoddi effaith rhagfarn a gwahaniaethu ar blant a phobl ifanc |
| | | 2.4 | Disgrifio gwahanol ffyrdd o gymhwyso egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei waith ei hun gyda phlant a phobl ifanc |
| 3 | Deall sut i gefnogi plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu | 3.1 | Nodi mathau cyffredin o Anghenion Addysgol Arbennig |
| | | 3.2 | Amlinellu ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu |
| 4 | Gwybod a deall anghenion addysgol arbennig dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol | 4.1 | Disgrifio effaith anabledd sylfaenol ar blant a phobl ifanc gan gynnwys: datblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol |
| | | 4.2 | Dadansoddi natur a lefel anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol dysgwyr yn y lleoliad |
| | | 4.3 | Disgrifio rolau a chyfrifoldebau eraill sy'n cyfrannu at gefnogi dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol |
| | | 4.4 | Disgrifio offer a thechnoleg arbenigol a ddefnyddir gan ddysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol. |
| 5 | Deall sut i gefnogi plant a phobl ifanc y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt | 5.1 | Nodi iaith a geirfa sy'n briodol i oedran y dysgwr, lefel y ddealltwriaeth a'r hyfedredd |
| | | 5.2 | Disgrifio ffyrdd newydd o gyflwyno geiriau a strwythurau iaith i ymestyn ei eirfa a gorchmynion strwythurol |

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Uned:** | Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc |
| **Rhif yr Uned:** | M/508/2486 |
| **Lefel:** | 4 |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad:** | 12 |
| **Credydau:** | 4 |

**Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr wrth hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a chyfrannu ato.

| **Deilliant Dysgu** | **Bydd y dysgwr yn:** | **Maen Prawf Asesu** | **Gall y dysgwr:** |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol | 1.1 | Nodi'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn y lleoliad |
| | | 1.2 | Disgrifio polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad i gefnogi plant a phobl ifanc i<br>1) Teimlo'n ddiogel<br>2) Gwneud cyfraniad cadarnhaol<br>3) Datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol<br>4) Deall disgwyliadau a chyfyngiadau |
| | | 1.3 | Esbonio pwysigrwydd cysondeb a thegwch wrth gymhwyso ffiniau a rheolau ar gyfer ymddygiad |
| 2 | Gallu hyrwyddo'r gwerthoedd a'r agweddau a'r ymddygiad cadarnhaol a ddisgwylir gan blant a phobl ifanc | 2.1 | Disgrifio manteision hyrwyddo gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad cadarnhaol a ddisgwylir gan blant a phobl ifanc |
| | | 2.2 | Dangos ffyrdd o sefydlu rheolau sylfaenol gyda phlant a phobl ifanc sy'n sail i werthoedd, agweddau ac ymddygiad priodol |
| | | 2.3 | Dangos strategaethau effeithiol i hyrwyddo gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad cadarnhaol a ddisgwylir gan blant a phobl ifanc |
| 3 | Gallu ymateb i ymddygiad amhriodol a heriol gan blant a phobl ifanc | 3.1 | Nodi patrymau a sbardunau sy'n arwain at ymddygiad heriol |
| | | 3.2 | Disgrifio'r camau i'w cymryd i ragweld, dargyfeirio neu wasgaru pwyntiau fflach posibl |
| | | 3.3 | Dangos gwahanol ffyrdd o reoli ymddygiad amhriodol a heriol yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau |
| | | 3.4 | Cefnogi plant a phobl ifanc i nodi'r sefyllfaoedd a'r amgylchiadau sy'n sbarduno ymddygiad amhriodol a ffyrdd o osgoi'r rhain rhag digwydd |
| | | 3.5 | Nodi camau a'u cymryd ar unwaith i ddelio ag unrhyw fwlio, aflonyddu neu ymddygiad gormesol yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau |
| 4 | Gallu cyfrannu at adolygiadau o ymddygiad a pholisïau ymddygiad | 4.3 | Rhoi adborth clir ac ystyriol ar effeithiolrwydd strategaethau rheoli ymddygiad i lywio'r gwaith o adolygu a datblygu polisïau. |

| Teitl yr Uned: | Gweithio gydag unigolion a grwpiau o ddysgwyr |
|---|---|
| Rhif yr Uned: | T/508/2487 |
| Lefel: | 4 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 13 |
| Credydau: | 8 |

**Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr wrth weithio gydag unigolion a grwpiau o ddysgwyr gan gynnwys edrych ar adnoddau, strategaethau cymorth a darparu adborth i'r athro.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall gweithio gydag unigolion a grwpiau bach | 1.1 | Dewis a pharatoi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgareddau dysgu a gynlluniwyd ar gyfer unigolion a'r grŵp cyfan |
| | | 1.2 | Datblygu ac addasu adnoddau i ddiwallu anghenion unigolion a'r grŵp cyfan |
| | | 1.3 | Dewis a dangos strategaethau cymorth dysgu i ddiwallu anghenion unigolion a'r grŵp cyfan |
| | | 1.4 | Sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn bodloni gofynion iechyd, diogelwch a mynediad perthnasol unigolion a'r grŵp cyfan |
| | | 1.5 | Rhoi sylw i ddysgwyr mewn ffordd sy'n cydbwyso anghenion unigolion a'r grŵp cyfan |
| | | 1.6 | Asesu pa mor dda mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a'r cynnydd maent yn ei wneud |
| | | 1.7 | Defnyddio deilliannau arsylwadau ac asesiadau i:<br>1. rhoi adborth i ddysgwyr ar y cynnydd a wnaed<br>2. rhoi adborth adeiladol i'r athro ar y gweithgareddau dysgu<br>3. rhoi adborth i'r athro ar gyfranogiad a chynnydd dysgwyr<br>4. myfyrio ar ei ymarfer eich hun a'i wella wrth gefnogi gweithgareddau dysgu |
| | | 1.8 | Gwerthuso sut mae ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i sgiliau eich hun mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithio ar ymarfer unigolion a'r grŵp cyfan |

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Uned:** | Perthnasoedd gwaith cadarnhaol |
| **Rhif yr Uned:** | F/508/2489 |
| **Lefel:** | 4 |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad:** | 13 |
| **Credydau:** | 4 |

**Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr wrth gyfathrebu'n effeithiol ac yn sensitif â phlant, pobl ifanc, cydweithwyr, rhieni a gofalwyr.

| Deilliant Dysgu<br>**Bydd y dysgwr yn:** | | Maen Prawf Asesu<br>**Gall y dysgwr:** | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gallu cyfathrebu'n effeithiol ac yn sensitif â phlant, pobl ifanc, cydweithwyr, rhieni a gofalwyr | 1.1 | Dangos cyfathrebu effeithiol gyda phlant a chydweithwyr. |
| | | 1.2 | Dangos sut i gyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr, gan gyfleu gwybodaeth amserol a pherthnasol am gyrhaeddiad, amcanion, cynnydd a lles. |
| | | 1.3 | Dangos ymrwymiad i gydweithio â chydweithwyr |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Cynllunio, monitro, gweithredu ac asesu cwricwlwm |
| Rhif yr Uned: | T/508/2490 |
| Lefel: | 4 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 12 |
| Credydau: | 8 |

**Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw darparu’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth sydd eu hangen i addysgu ar draws ystod oedran a gallu, defnyddio TGCh i hyrwyddo dysgu, gosod amcanion dysgu a monitro cynnydd a chyrhaeddiad.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gallu addysgu gwersi heriol a threfnus ar draws yr ystod oedran a gallu | 1.1 | Defnyddio ystod briodol o strategaethau ac adnoddau addysgu, gan gynnwys e-ddysgu, sy'n diwallu anghenion dysgwyr. |
| | | 1.2 | Cynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl a dysgu sy'n briodol i’w cyfnod a'u cyd-destun |
| | | 1.3 | Myfyrio ar sut mae gwybodaeth a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr yn eu galluogi i gyflawni amcanion dysgu a gwneud cynnydd parhaus. |
| | | 1.4 | Defnyddio iaith briodol i weddu i oedran a gallu dysgwyr. |
| | | 1.5 | Dangos ei fod yn gallu rheoli dysgu unigolion, grwpiau a’r dosbarth cyfan |
| | | 1.6 | Addasu addysgu'n briodol i weddu i gam y wers ac anghenion y dysgwyr |
| 2 | Gallu defnyddio sgiliau TGCh i hyrwyddo dysgu | 2.1 | Nodi cyfleoedd i ddefnyddio TGCh i gefnogi dysgu disgyblion o fewn y rhaglen addysgu gyffredinol |
| | | 2.2 | Disgrifio sut i annog disgyblion i ddefnyddio TGCh i ddatrys problemau, cydweithio a darganfod gwybodaeth newydd |
| | | 2.3 | Dadansoddi sut mae disgyblion yn ymateb i raglenni a deunyddiau TGCh i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'u gallu a'u harddull ddysgu |
| 3 | Gallu defnyddio ystod briodol o strategaethau ar gyfer gosod amcanion dysgu a monitro cynnydd a chyrhaeddiad | 3.1 | Rhoi adborth amserol, cywir ac adeiladol i ddysgwyr, cydweithwyr, rhieni a gofalwyr ar gyrhaeddiad, cynnydd a meysydd datblygu dysgwyr |
| | | 3.2 | Cefnogi ac arwain dysgwyr fel y gallant fyfyrio ar eu dysgu, nodi'r cynnydd maent wedi'i wneud, gosod targedau cadarnhaol ar gyfer gwella a dod yn ddysgwyr annibynnol llwyddiannus |
| | | 3.3 | Defnyddio asesu fel rhan o'u haddysgu i wneud diagnosis o anghenion dysgwyr, gosod targedau realistig a heriol ar gyfer gwella a chynllunio addysgu yn y dyfodol |
| 4 | Gallu cynnal a dadansoddi cofnodion o gynnydd dysgwyr | 4.1 | Monitro cynnydd dysgwyr er mwyn darparu cefnogaeth ac adborth penodol |

# Gofynion o ran Staff

## Gofynion ar gyfer Tiwtoriaid/Hyfforddwyr

Bydd gofyn i diwtoriaid sy'n darparu'r cymhwyster feddu ar gymhwyster addysgu, neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster o'r fath. Gall hyn gynnwys cymwysterau megis Lefelau 3, 4 neu 5 mewn Addysg a Hyfforddiant, neu Dystysgrif mewn Addysg. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau addysgu eraill o'u cyflwyno.  Rhaid i diwtoriaid allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector hefyd. Yn benodol ar gyfer y cymhwyster hwn, rhaid i'r tiwtor/hyfforddwr feddu ar y cymhwyster o leiaf.

## Gofynion ar gyfer Aseswyr

Bydd yn ofynnol i aseswyr feddu ar gymhwyster asesu perthnasol, neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster o'r fath. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau megis:

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol

Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau asesu perthnasol eraill o'u cyflwyno.
Bydd yn ofynnol i aseswyr sydd ond yn meddu ar Ddyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion a Phrosesau Asesu gwblhau rhaglen astudio ychwanegol i gyflawni'r unedau cymhwysedd perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer un o'r cymwysterau a restrir uchod.
Bydd yn ofynnol i benderfyniadau aseswyr dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster asesu gael eu gwrthlofnodi gan asesydd â chymwysterau addas.
Rhaid i aseswyr allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector hefyd.

## Gofynion ar gyfer Sicrhawyr Ansawdd Mewnol (IQA)

Dylai Sicrhawyr Ansawdd Mewnol feddu ar gymhwyster Sicrhawyr Ansawdd Mewnol neu fod yn gweithio tuag at y cymhwyster hwnnw. Gall hyn gynnwys cymwysterau megis V1 (D34 gynt), neu Ddyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau perthnasol eraill Sicrhawyr Ansawdd Mewnol o'u cyflwyno. Bydd yn ofynnol i benderfyniadau Sicrhawyr Ansawdd Mewnol dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster Sicrhawyr Ansawdd Mewnol gael eu cydlofnodi gan Sicrhawr sydd â chymwysterau addas. Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol allu dangos cymhwysedd galwedigaethol. Yn benodol ar gyfer y cymhwyster hwn, rhaid i'r Sicrhawr Ansawdd Mewnol feddu ar y cymhwyster o leiaf.





# Geirfa ddefnyddiol o dermau a ddefnyddir yn y fanyleb hon

Mae'r tabl hwn yn esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir yng nghynnwys Manyleb Cymwysterau Focus Awards yn cael eu cymhwyso. Nid yw pob term yn cael ei ddefnyddio yn y cymhwyster penodol hwn o reidrwydd.

| | |
|---|---|
| Adolygu a diwygio | Edrych yn ôl dros y pwnc a gwneud cywiriadau neu newidiadau er mwyn gwella eglurder neu ddangos dealltwriaeth yn well. |
| Allosod | Defnyddio gwybodaeth a data sydd eisoes yn bodoli i ragfynegi deilliannau neu ganlyniadau posibl a allai fod y tu hwnt i'r 'norm' disgwyliedig. |
| Amcangyfrif | Defnyddio gwybodaeth, profiad a gwybodaeth berthnasol arall sydd eisoes yn bodoli i nodi barn fras neu 'amcan gorau'. |
| Arddangos | Disgrifio neu esbonio gwybodaeth neu ddealltwriaeth drwy ddarparu enghreifftiau neu ddarluniau. |
| Barnu | Llunio barn neu wneud penderfyniad. |
| Coladu | Casglu a threfnu gwybodaeth mewn trefn resymegol (e.e., yn nhrefn yr wyddor, yn rhifiadol, yn gronolegol ac ati). |
| Crynhoi | Cyfleu'r prif syniadau neu ffeithiau yn gryno. |
| Cyfiawnhau | Rhoi esboniad boddhaol dros weithredoedd neu benderfyniadau. |
| Cyflawni | Ymgymryd â thasg neu broses i fodloni gofynion y cwestiwn. |
| Cymharu | Archwilio'r pynciau yn fanwl i nodi gwahaniaethau a thebygrwydd. |
| Cymharu'n feirniadol | Yn debyg i 'cymharu' uchod, ond gan ystyried unrhyw agweddau cadarnhaol a/neu gyfyngiadau sy'n deillio o'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd a nodir. |
| Cymhwyso | Esbonio sut y gellir defnyddio'r wybodaeth bresennol mewn sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| Cynllunio | Llunio a chofnodi (rhestru) dilyniant gwybodaeth rhesymegol a threfnus, yr adnoddau a'r camau/digwyddiadau sydd eu hangen i alluogi cysyniad neu syniad i gael ei grisialu a'i gyfathrebu. |
| Dadansoddi | Torri'r pwnc yn rhannau unigol. Archwilio pob un, dangos sut maen nhw'n cyd-fynd, p'un a ydynt yn cefnogi ei gilydd a pham maen nhw'n bwysig. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol gryfhau eich dadansoddiad. |
| Dangos | Darparu tystiolaeth i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gywir. |
| Darparu | Nodi a chyflwyno gwybodaeth manwl a chywir sy'n gysylltiedig â'r pwnc. |

| | |
|---|---|
| Datblygu... | Ehangu cynllun neu syniad drwy ychwanegu rhagor o fanylion a/neu ddyfnder gwybodaeth. |
| Datgan | Rhoi'r prif bwyntiau'n glir mewn brawddegau neu baragraffau. |
| Dehongli | Egluro ystyr rhywbeth. |
| Dewis | Gwneud dewis gwybodus at ddiben penodol neu ddeilliant/canlyniad gofynnol. |
| Disgrifio | Ysgrifennu am y pwnc, gan gyflwyno gwybodaeth fanwl yn rhesymegol. |
| Dod i gasgliadau... | Dod i benderfyniad yn seiliedig ar reswm neu resymeg. |
| Dosbarthu | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| Egluro | Esbonio'r wybodaeth a gyflwynir yn glir ac yn gryno. |
| Esbonio | Cyflwyno gwybodaeth fanwl am y pwnc gyda rhesymau sy'n dangos sut neu pam y mae'n cael ei chynnwys. Dylech gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau hyn pan fo hynny'n bosibl. |
| Gwahaniaethu (esbonio) | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng dwy/dau neu fwy o eitemau, adnoddau, darnau o wybodaeth. |
| Gwahaniaethu (nodi) | Nodi'r gwahaniaethau rhwng dwy/dau neu fwy o ddadleuon, sefyllfaoedd neu bynciau. |
| Gweithredu | Esbonio sut i roi syniad neu gynllun ar waith. |
| Gwerthuso | Archwilio cryfderau a gwendidau, ystyried dadleuon o blaid ac yn erbyn, a/neu debygrwydd a gwahaniaethau. Asesu unrhyw dystiolaeth a gyflwynir o wahanol bersbectifau a dod i gasgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol gefnogi'r gwerthusiad. |
| Gwneud diagnosis | Coladu ac ystyried tystiolaeth briodol i nodi achos neu darddiad sefyllfa neu broblem. |
| Myfyrio | Ystyried gweithredoedd, profiadau neu ddysgu a sut y gallai'r rhain effeithio ar ymarfer a/neu ddatblygiad proffesiynol. |
| Nodi | Adnabod ac enwi'r prif bwyntiau'n gywir. Efallai y bydd angen disgrifiad neu esboniad ychwanegol i gynorthwyo eglurder ac i briodoli hygrededd. |
| Trafod | Creu cyfrif manwl o ystod o safbwyntiau, barnau neu bersbectifau. |
| Ystyried | Meddwl yn feirniadol am sefyllfa, problem, gweithred neu benderfyniad a gyflwynir, a'i esbonio. Hefyd, gweler 'esbonio' uchod. |

# Adborth yr Asesydd

| | |
|---|---|
| Enw'r Myfyriwr: | |
| Rhif Myfyriwr: | |
| Cwrs: | |
| Uned(au): | |
| Meini Prawf: | |
| Dyddiad: | |
| Sylwadau: | |
| | |
| Penderfyniad: | |
| Camau Pellach: | |
| Asesydd: | |
| Swydd: | |

# Adroddiad y Sicrhawr Ansawdd Mewnol

| Adroddiad y Sicrhawr Ansawdd Mewnol | | | |
|---|---|---|---|
| Cymhwyster: | | | |
| Asesydd: | | Sicrhawr Ansawdd Mewnol: | |
| Enw'r Ymgeisydd | Uned(au) â Samplwyd | Dulliau Asesu | Sylwadau |
| | | | |

| | |
|---|---|
| Llofnod y Sicrhawr Ansawdd Mewnol | |
| Llofnod yr Asesydd | |